

## **Pwyllgor Cynllun Busnes**

Cofnodion Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu am 7pm, nos Iau, Hydref 22ain, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol y Cynghorwyr Anwen Jones; Marian Evans; Dafydd Williams; Ifor W Davies; Aled Lloyd Evans a'r Clerc.

Estynnwyd croeso i bawb gan Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Ifor W Davies ac etholwyd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor.

Rhoddodd y Clerc adroddiad ariannol.

Datganodd ei fod wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth Adran Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd Cyngor Gwynedd yn dweud y bydd tâl am lenwi biniau halen yn y gymuned o Ebrill 1af, 2016 ymlaen.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd mai'r ffordd ymlaen gyda gwaith y pwyllgor yma fydd gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a gofynnwyd i'r Clerc baratoi taflen ar union wariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf sef 2014/15, dan y penawdau sydd yn llyfr cyfrifon y Cyngor.

Yn ogystal gofynnwyd i'r Clerc roi eitem ar raglen waith Cyngor mis Tachwedd yn gofyn i Gynghorwyr ydynt yn ymwybodol o unrhyw waith sydd angen ei wneud gan y Cyngor yma yn eu wardiau.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.